
# UWCH-ARWEINWYR CENEDLAETHOL

# RHAGLEN DATBLYGU




Mae symud o arweinyddiaeth ganol i uwch arweinyddiaeth yn gofyn am newid i feddylfryd ysgol gyfan, y sgiliau i reoli timau cymhleth a blaenoriaethau gwrthgyferbyniol, a hynny gan sicrhau ar yr un pryd eich bod yn cadw dysgwyr wrth galon popeth a wnewch.

Mae'r rhaglen datblygu un flwyddyn hon yn gyfle dysgu proffesiynol i uwch-arweinwyr ledled Cymru. Bydd y cyfranogwr yn gweithio ar ei ben ei hun ac ar y cyd ag eraill yn rolau arweinwyr sefydliadau sy'n dysgu. Mae hon yn rhaglen genedlaethol a gydgysylltir gan gonsortia rhanbarthol ac sy'n defnyddio amrywiaeth o bartneriaid cyflawni.

## Cynulleidfa

Mae'r rhaglen hon ar gyfer arweinwyr sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am agwedd ar arweinyddiaeth ar draws sefydliad. Mae hyn yn cynnwys uwch-arweinwyr cwricwlwm/bugeiliol ac aelodau o uwch-dîm arwain, er enghraifft penaethiaid cynorthwyol neu ddirprwy benaethiaid.

## Diben

Trwy hunanwerthuso a myfyrio, gan archwilio'r perthnasoedd rhwng arweinyddiaeth, ysgolion llwyddiannus a'r gymuned ehangach, mae'r rhaglen yn hyrwyddo arweinyddiaeth hynod o effeithiol.

Yn rhan o'r continwwm dysgu proffesiynol, bydd cyfranogwyr, trwy'r rhaglen hon, yn:

- Datblygu ymhellach eu dealltwriaeth o rôl uwch arweinydd
- Datblygu'r wybodaeth a'r sgiliau a ddylai fod yn gyfarwydd i uwch-arweinydd effeithiol ac y dylai allu eu mabwysiadu
- Cael cyfle i ddatblygu'r ymddygiadau arweinyddiaeth y mae eu hangen ar gyfer uwch-arweinydd effeithiol
- Datblygu eu dealltwriaeth o'r agenda diwygio cenedlaethol ymhellach
- Datblygu eu hymarfer yn unol â'r safonau arweinyddiaeth ffurfiol

## Dull cyflwyno

Mae'r rhaglen hon yn rhan o broses ddatblygu barhaus a dilyniannol sy'n cyd-fynd â'r llwybr dysgu proffesiynol a bydd yn adeiladu ar sgiliau a gwybodaeth dysgu proffesiynol blaenorol unigolyn.

Mae yna fodiwlau craidd sy'n galluogi'r cyfranogwr i ddatblygu'r wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth i ddod yn uwch-arweinydd effeithiol.

Mae dull darparu'r rhaglen i uwch-arweinwyr yn cynnwys mentora, rhwydweithiau cymorth cymheiriaid, a hunanadolygiad unigol o safonau arweinyddiaeth.

Darperir yr holl weithgareddau yr ymgymerir â nhw yn rhan o'r rhaglen hon yn Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog.

Ceir mynediad i'r rhaglen trwy broses ymgeisio genedlaethol a chaiff ei darparu gan y consortia rhanbarthol a'u partneriaid.

Bydd y rhaglen ddatblygu hon yn cynnwys:

Modiwl 1 Gwerthoedd ac Ymagweddau, Hunanfyfyrio
Modiwl 2 Gweithio gydag Eraill
Modiwl 3 Hyfforddi a Mentora
Modiwl 4 Addysgeg
Modiwl 5 Cydweithredu

- Bydd pob cyfranogwr yn ymgymryd â thasg profiad o arweinyddiaeth, a hynny gan ddefnyddio'r canfyddiadau ymchwil mwyaf diweddar i ddatblygu ei sgiliau arwain
- Bydd Hyfforddwr Arweinyddiaeth hefyd yn cael ei neilltuo i'r cyfranogwyr, a fydd yn cefnogi'r cyfranogwyr ac yn hwyluso'r rhwydwaith cymorth cymheiriaid
- Bydd cyfranogwyr yn ymgysylltu â sesiynau rhwydwaith cymheiriaid a fydd yn arwain at rannu syniadau, cymorth gan gymheiriaid a datrys problemau ar y cyd, gan roi'r cyfle i ddysgu gan eraill ledled y system

Mae'r rhaglen yn anelu at fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd e-ddysgu a thechnoleg trwy sicrhau bod yr holl gynnwys dysgu, ymchwil a chyfarwyddiadol ar gael yn ddigidol. Dyma fydd y prif ddull o gasglu a chyfnewid gwybodaeth a dysgu.

## Gwneud cais

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 1pm ar 23 Tachwedd 2022.
Er mwyn gwneud cais i gymryd rhan yn y rhaglen, dylai'r unigolyn

1. Ymgymryd â Hunanadolygiad o Safonau Arweinyddiaeth (LSSR)
2. Trafod ei addasrwydd â'i Bennaeth neu ei Reolwr Llinell, fel y bo'n briodol
3. Llenwi'r ffurflen gais erbyn y dyddiad cau a nodir gan ddefnyddio'r ddolen ymgeisio.

Os hoffech drafod unrhyw agwedd ar yr uchod, cysylltwch â'ch cydlynydd rhanbarthol fel y nodir isod.

| Rhanbarth | Cydgysylltydd | Manylion Cyswllt |
|---|---|---|
| Consortiwm Canol De Cymru (CSC) | Alison Tovey | alison.tovey@cscjes.org.uk |
| Y Gwasanaeth Cyflawni Addysg (EAS) | Adelaide Dunn | Adelaide.Dunn@sewaleseas.org.uk |
| Partneriaeth | Janet Waldron | waldronj11@hwbcymru.net |
| GwE | Rhys Williams<br>Ceri Kenrick | edwardrhyswilliams@gwegogledd.cymru<br>cerisiankenrick@gwegogledd.cymru |

Rhagor o wybodaeth a manylion ymgeisio.

- Trosolwg o'r Rhaglen i Ddatblygu Uwch-arweinwyr
- Hunanadolygiad o Safonau Arweinyddiaeth (LSSR)
- Dolen Ymgeisio 2022-23